



## **AWDURDOD LLEOL SIR Y FFLINT**

### **FFRAMWAITH POLISI PLANT SYDD AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)**

# FFRAMWAITH POLISI PLANT SYDD AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) MYNEGAI

## **A GWYBODAETH GYFFREDINOL AR YMARFER A DATBLYGIADAU I'R DYFODOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION YCHWANEGOL**

- A1** Datganiad polisi'r ALI ar blant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- A2** Hyrwyddo safonau uchel
- A3** Annog plant i gymryd rhan yn llawn
- A4** Annog ysgolion i rannu arferion
- A5** Gweithio gydag asiantaethau a chyrrff statudol eraill

## **B TREFNIADAU CYFFREDINOL AWDURDODAU LLEOL AR GYFER DIWALLU ANGHENION PLANT SYDD AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

- B1** Darparu ar gyfer cynhwysiant
- B1.1** Strategaeth Cynhwysiant yr ALI
- B1.2** Manylion yr ystod o ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael
- B1.3** Gwasanaeth Cynhwysiant a Chynnydd ALI Sir y Fflint
- B2** Darpariaeth ar gyfer plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar
- B3** Adnabod plant gydag ADY
- B4** Monitro derbyn plant ag ADY
- B5** Trefnu asesiad statudol
- B5.1** Y Broses Foderneiddio
- B6** Rhoi cefnogaeth i ysgolion ynglŷn â darparu ar gyfer plant ag ADY
- B7** Archwilio, cynllunio, monitro ac adolygu darpariaeth ar gyfer plant ag ADY
- B8** Cynllunio, monitro ac adolygu darpariaeth ar gyfer plant unigol
- B9** Cefnogi plant gydag ADY drwy Gweithredu Gan yr Ysgol a Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy
- B10** Sicrhau hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth i staff sy'n gweithio gyda phlant ag ADY
- B11** Esbonio dyraniadau cyllideb ALI ac ysgol ar gyfer plant gydag ADY.
- B12** Monitro ac adolygu gwasanaethau cefnogi ADY
- B13** Monitro ac adolygu Gwasanaethau Partneriaeth Rhieni
- B14** Ystyried niferoedd disgyblion cyfredol ac wedi'u rhagweld
- B15** Monitro'r mathau o anghenion a nodwyd a lle bydd plant yn cael eu lleoli
- B16** Darpariaeth arbenigol yn Sir y Fflint (Diagram)

## **C GEIRFA**

Mae'r Fframwaith Polisi hwn yn dilyn y strwythur a'r penawdau a nodwyd yng *Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* adrannau 1.22-1.24

## RHAN A

### GWYBODAETH GYFFREDINOL AR ARFERION A DATBLYGIADAU I'R DYFODOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i bolisi o Gynhwysiant i Bawb. Mae'r egwyddor hwn yn cael ei gynnal gan yr Awdurdod Lleol (ALI) a'i ysgolion.

Ein nod yw creu diwylliannau a chymunedau cynhwysol yn ein hysgolion ac o'u hamgylch. Rydym eisiau i blant, rhieni a staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn gyfartal. Rydym yn dymuno dileu'r rhwystrau i ddysgu plant a meithrin eu cyfranogiad llawn ym mywyd yr ysgol.

Mae'r ALI wedi mabwysiadu'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i ymdrin â'r grwpiau o blant a phobl ifanc a all fod angen cefnogaeth ychwanegol bob amser i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Mae'r rhestr isod yn nodi'r grwpiau hyn a all syrthio i'r categori hwn:

- Plant teuluoedd dan amgylchiadau anodd
- Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig
- Disgyblion ag anabledd
- Rhai disgyblion o gefndiroedd ethnig gan gynnwys y rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY)
- Plant sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches
- Sipsiwn a Theithwyr
- Plant gweithwyr mudol
- Disgyblion mwy galluog a thalentog
- Y rhai sydd dan ofal yr ALI
- Dysgwyr gydag anghenion meddygol
- Rhieni ifanc a merched ifanc beichiog
- Troseddwyr ifanc
- Gofalwyr Ifanc
- Disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol
- Gwrthod mynd i'r ysgol/ffobia
- Disgyblion sy'n perfformio neu sy'n gweithio

*Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*  
Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 203/2016

Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â pholisïau ac arferion yr ydym yn credu fydd yn helpu pobl gydag ADY i ddysgu a ffynnu yn ein system addysgol. Er bod y fframwaith ar gyfer bob plentyn, rhoddir ffocws sylweddol ar y rhai a ddisgrifir fel rhai ag anghenion addysgol arbennig (AAA), y mae'r arferion wedi'u harwain gan God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002).

## **A1 DATGANIAD POLISI'R ALL AR BLANT GYDAG ADY**

### **1. Nod**

Nod y polisi, a'r arferion y mae'n eu hategu, yw gwneud y gorau o gyfleoedd addysgol holl ddisgyblion Sir y Fflint a nodwyd sydd ag ADY. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gynnig addysg berthnasol a gwerth chweil i bob plentyn, sydd wedi'i gynllunio i'w galluogi i gael eu cynnwys, a chymryd rhan yn llawn yn y gymdeithas y maent yn cyfrannu ati neu'n manteisio ohoni.

### **2. Continwmm darpariaeth**

Trwy ei ysgolion, bydd Cyngor Sir y Fflint yn parhau i ddarparu continwmm eang o ddarpariaeth ar gyfer plant ag ADY. Bydd y continwmm yn ymateb i natur ac ystod ADY y plant. Wrth wneud darpariaeth bydd yr ALI a'i ysgolion yn ystyried *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002)*, a *Chynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 203/2016)*.

Bydd ADY y mwyafrif helaeth o blant yn cael eu hadnabod, eu diwallu a'u monitro mewn ysgolion prif ffrwd. Felly, bydd y rhan fwyaf o gyngor a chefnogaeth yr ALI yn cael ei gyfeirio at ysgolion prif ffrwd. Bydd gan nifer fechan o blant anghenion unigol na ellir eu diwallu yn rhesymol gyda'r arian sydd ar gael fel arfer i ysgol brif ffrwd. Bydd yr ALI yn darparu adnoddau ychwanegol i asesu, diwallu a monitro anghenion y plant hyn. Bydd yr adnoddau ychwanegol hyn yn cynnwys continwmm o ddarpariaeth sy'n amrywio o gefnogaeth i gael mynediad i addysg mewn dosbarthiadau prif ffrwd, i fynediad at ysgolion arbenigol ar wahân.

### **3. Ymateb i newid**

Bydd yr ALI yn adolygu ei gontinwmm darpariaeth yn gyson er mwyn parhau i:

- adlewyrchu patrwm a natur newidiol ADY plant;
- ymateb i ffafriaeth plant a rhieni; a
- cheisio defnyddio adnoddau yn effeithiol i ddarparu addysg o'r safon uchaf.

### **4. Gweithio mewn partneriaeth**

Bydd yr ALI yn parhau i weithio yn agos gyda rhieni, plant a staff addysgol i wella canlyniadau i blant ag ADY. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i adolygu a datblygu ein gwaith partneriaeth yn barhaus gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni Sir y Fflint, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r sector gwirfoddol i wneud y gorau o'r effaith ar blant gydag ADY a'u teuluoedd.

## **5. DATGANIAD POLISI**

### **5.1 Cwricwlwm i bawb**

Dylai bod gan bob plentyn a pherson ifanc yr un hawl cwricwlaidd. Bydd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael ei ddilyn gan bob plentyn, oni bai eu bod angen addasiad neu ddatgymhwysiad i ddiwallu eu ADY penodol.

## 5.2 Diwallu dymuniadau rhieni a phlant

Os oes angen newid lleoliad addysgol o ganlyniad i anghenion plant unigol, ymgynghorir â'r rhieni, a'r plant os yw'n briodol, bob amser ynglŷn â'r lleoliad newydd. Bydd yr ysgol bresennol yn gofyn barn y plentyn a bydd hyn yn ffurfio rhan o'r cyngor a gyflwynir gan yr ysgolion i'r ALI.

Os yw'n bosibl, bydd yr ALI yn ceisio lleoli plant mewn ysgolion yn ôl eu dymuniadau eu hunain, a dymuniadau eu rhieni. Bydd yr holl benderfyniadau lleoli yn amodol ar yr ystyriaethau a ganlyn, fel yr amlinellir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru:

- bod yr ysgol yn addas i oedran, gallu a dawn y plentyn ac anghenion addysgol arbennig;
- Nid yw presenoldeb y plentyn yn anghydnaws gydag addysg effeithlon plant eraill yn yr ysgol; ac
- mae'r lleoliad yn ddefnydd effeithlon o adnoddau'r ALI.

## 5.3 Cynllun Partneriaeth Rhieni

Mae'r ALI wedi sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor ar Bopeth i ddarparu Gwasanaeth Partneriaeth i Rieni. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i unrhyw riant y mae gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol.

## 5.4 Cefnogaeth i'r Plentyn

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i apelio fel rhan o'r broses statudol. Os gwneir cais am asemiad statudol, bydd y plentyn yn cael Cyfaill Achos a fydd yn eu cefnogi drwy gydol y broses. Fel arfer, aelod staff o sefydliad addysgol presennol y plentyn fydd hwn.

## 5.5 Trefniadau Cyfryngu

Mae'r ALI hefyd yn tanysgrifio i Wasanaeth Datrys Anghydfod Gogledd Cymru. Mae'r gwasanaeth wedi'i reoli gan Snap Cymru ar gyfer chwe ALI Gogledd Cymru. Prif nod y gwasanaeth yw ceisio cytundeb rhwng rhieni a darparwyr gwasanaeth os nad ydynt wedi gallu cytuno ynghylch anghenion y plentyn a sut dylid eu diwallu.

## 5.6 Polisi cynhwysiad

Bydd ALI Sir y Fflint yn hyrwyddo cynhwysiant bob plentyn gydag ADY ac mae'n credu, lle bo'n bosibl, y dylid darparu ar gyfer anghenion y plentyn yn eu hysgol prif ffrwd leol. Os nad yw hyn yn bosibl, ystyrir ysgol prif ffrwd arall gydag adnoddau addas. Os na ellir darparu yn llawn ac yn briodol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol y plentyn mewn ysgol prif ffrwd, bydd darpariaeth amgen, rhan amser neu lawn amser ar gael iddynt mewn ysgol arbenigol.

## **5.7 Addysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae darpariaeth ar gael ym mhob cam ar gyfer plant sydd eisiau cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ALI wedi ymrwymo i gefnogi mynediad i bawb i addysg cyfrwng Cymraeg drwy argaeledd gwasanaethau cynnal priodol i blant ag ADY, rhieni ac ysgolion, gan gomisiynu'r rhain os oes angen.

## **5.8 Tegwch Cyllid**

Dylai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o'r un lefel a math gael mynediad at yr un ddarpariaeth ac adnoddau dim ots ym mha ysgol y maent wedi'u lleoli. Mae angen i bob ysgol ddefnyddio eu cyllid eu hunain i gefnogi disgyblion y credir sydd ar lefel Gweithredu Gan yr Ysgol o'r ymateb fesul cam. Mae cyllid ychwanegol wedi'i ddirprwyo i ysgolion cynradd ac uwchradd i ddiwallu anghenion y mwyafrif o ddisgyblion yn Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy a gyda Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

Mae'r ALI yn cynnal Panel Cymedroli sy'n ystyried yr angen am ddarpariaeth ychwanegol yn fwy na'r hyn sydd ar gael yn yr ysgol. Os gwneir ceisiadau, bydd angen ystyried anghenion unigolion yn erbyn y meini prawf penodol.

## **5.9 Dyrannu adnoddau**

Mae gan yr ysgolion yr adnoddau i ddiwallu ADY y rhan fwyaf o blant drwy eu cyllidebau dirprwyedig. Mae gan rai plant ADY na ellir disgwyl i'r ysgol ddarparu ar eu cyfer o'r gyllideb ddirprwyedig a bydd yr ALI yn awdurdodi mynediad i gyllid ategol i ariannu'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer y plant hyn. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei nodi naill ai yn Natganiadau AAA y plant neu mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth a lunnir gan yr ALI. Bydd darpariaeth yn cael ei fonitro drwy adolygiadau rheolaidd a bydd yn amodol ar newid mewn ymateb i anghenion yr unigolyn.

## **5.10 Darparu cludiant am ddim**

Mewn rhai achosion bydd yr ALI yn darparu cludiant am ddim i blant ag ADY. Mae'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim wedi'u gosod ym mholisi cludiant yr ALI. Mae copi o'r polisi hwn ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint.

## **5.11 Y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant**

Mae gan yr ALI Wasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant sy'n ceisio darparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol ac wedi'i gydlynu i bob ysgol, plentyn a'u teuluoedd. Bydd mynediad i'r gwasanaethau hyn yn cael ei flaenoriaethu yn ôl difrifoldeb neu frys. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y Gwasanaeth hwn ar wefan Cyngor Sir y Fflint neu'r Hwb.

## **5.12 Gweithio gydag asiantaethau eraill**

Bydd yr ALI, gyda'i ysgolion a gwasanaethau cynnal yn parhau i ddatblygu trefniadau gwaith cydweithredol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r sector gwirfoddol i gefnogi plant a'u teuluoedd.

### 5.13 Hyfforddiant

Mae'r ALI yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant mewn perthynas ag 'adeiladu capasiti' yn ein sefydliadau addysgol. Mae ystod o gyfleoedd hyfforddiant yn cael eu darparu ar gyfer pob staff sy'n gweithio gyda phlant ag ADY ac mae'r ALI yn cydweithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau mewn perthynas â hyfforddiant. Gellir cael rhagor o fanylion o safle Hwb Cyngor Sir y Fflint neu yn uniongyrchol gan wasanaethau unigol.

### 5.14 Monitro

Bydd yr ALI yn cynorthwyo ei ysgolion i osod a monitro targedau ystyrlon a heriol ar gyfer eu disgyblion ag ADY a bydd yn rhoi cefnogaeth i sicrhau bod systemau digonol wedi'u sefydlu ym mhob ysgol i fonitro cynnydd y disgyblion hyn.

Trwy'r dulliau hyn, bydd yr ALI yn monitro a gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth sydd ar gael i blant ag ADY.

## A2 HYRWYDDO SAFONAU ADDYSG UCHEL I BLANT AG ADY.

Gyda'i ysgolion, mae'r ALI wedi ymrwymo i hyrwyddo safonau addysg uchel i ddisgyblion ag ADY. Mae'n ceisio cyflawni hyn trwy'r dulliau a ganlyn:

- Gwaith y Gwasanaeth Cynhwysiad a Dilyniant i ddarparu ystod o gefnogaeth a darpariaeth ar gyfer plant ag ADY, eu rhieni ac ysgolion;
- Swyddogaeth fonitro'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Ieuenctid;
- Cefnogaeth, cyngor a chyfarwyddyd i Benaethiaid a Chyrff Llywodraethu;
- Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Cyngor Sir y Fflint;
- Gweithredu Strategaeth Hygyrchedd yr ALI ar gyfer plant;
- Hyfforddiant effeithiol i staff addysgol i'w cynorthwyo i ddiwallu anghenion unigol yn briodol;
- Parhau i annog a chefnogi datblygiad a gweithrediad mesurau ataliol mewn ysgolion;
- Hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth rheolaidd i ALNCos;
- Cyngor a chyfarwyddyd ar faterion rheoli a pholisi perthnasol ADY cyffredinol o'r Gwasanaeth Cynhwysiad a Dilyniant a gwasanaethau canolog eraill yr ALI;
- Ymgynghori gyda staff ysgolion a rhieni ynglŷn ag anghenion disgyblion a grwpiau o ddisgyblion;
- Dyrannu adnoddau i ysgolion i'w cefnogi i ddiwallu AAA yn Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy;
- Cyhoeddi Datganiadau AAA, Nodiadau yn lle Datganiad, neu Gytundebau Lefel Gwasanaeth sy'n trefnu darpariaeth priodol i ddiwallu anghenion bob plentyn;
- Mynediad i gyfleusterau arbenigol lle bo'n briodol;
- Annog ysgolion i fod â disgwyliadau uchel ar gyfer eu disgyblion o ran ADY; a ➤ Mynediad i wasanaeth eirioli i blant.

### **A3. ANNOG PLANT AG ADY I GYMRYD RHAN YN LLAWN YN EU HYSGOL A’U CYMUNED A CHYMRYD RHAN MEWN PENDERFYNIADAU YNGLŶN Â’U HADDYSG.**

Mae'r ALI yn cefnogi'n gryf y bwriad o gael Cod Ymarfer AAA Cymru a'r Canllawiau Cynhwysiad a Chefnogi Disgyblion, i annog plant i gymryd rhan lawnach yn eu hysgol a'u cymunedau a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'u haddysg.

**Mae'n ceisio cyflawni'r nod hwn trwy:**

- Gyngori ysgolion i wahodd plant i'w cyfarfodydd adolygu Cynllun Addysg Unigol neu gyfarfodydd adolygu blynyddol os ydynt yn gallu ac yn fodlon gwneud hynny;
- Gofyn i ysgolion ymgynghori gyda phlant ynglŷn â'u barn am eu hanghenion a'u dymuniadau fel rhan o'r asesiad statudol a'u ceisiadau am gefnogaeth yn Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy;
- Seicolegwyr Addysg yn ceisio a chofnodi barn plant ynglŷn â'u hanghenion a'u dymuniadau fel rhan o'u hasesiadau unigol;
- Annog ysgolion i ystyried sut y bydd disgyblion ag ADY yn cael eu cynrychioli ar Gyngor yr Ysgol;
- Mynediad i gynllun eirioli; a
- Gweithio gyda'r Fforwm Ieuenctid i gynnwys Llais y Dysgwyr mewn datblygiadau ac adolygiadau gwasanaeth.

### **A4 ANNOG YSGOLION I RANNU EU HARFERION WRTH DDARPARU AR GYFER PLANT GYDAG ADY.**

Mae'r ALI yn cydnabod pwysigrwydd ac effaith gadarnhaol rhannu arfer effeithiol rhwng ein hysgolion. Mae'r ALI yn dymuno cefnogi ysgolion wrth rannu arferion drwy'r canlynol:

- Adnabod arfer effeithiol trwy ymweliadau a'i lledaenu trwy amrywiaeth o fforymau;
- Pan fydd ysgolion yn penodi staff allweddol fel y Cydlynwyr ADY, maent yn cael eu hannog i geisio ymarferwyr profiadol o ysgolion eraill i weithredu fel mentoriaid ar gyfer deiliaid newydd y swyddi; a
- Sefydlu ysgolion arbenigol, PPRY a darpariaeth ag adnoddau fel canolfannau arbenigedd i'w ddefnyddio gan staff prif ffrwd.

### **A5 GWEITHIO GYDA CHYRFF STATUDOL A GWIRFODDOL I ROI CEFNOGAETH I BLANT AG ADY.**

Mae'r ALI yn adnabod gwerth gweithio mewn partneriaeth agos gydag asiantaethau eraill a sefydliadau gwirfoddol i gefnogi plant ag ADY. Mae'r gydnabyddiaeth wedi'i chyflawni mewn amryw o wahanol leoliadau a dulliau, ac mae enghreiffiau i'w cael yn y tabl a ganlyn.

<b>TEITL Y FFORWM</b>	<b>PRIF SWYDDOGAETH</b>	<b>AELODAETH</b>
<b>Paneli Cymedroli Awdurdod Lleol</b>	Gwneud penderfyniadau allweddol yn ymwneud â'r broses asesu statudol	Swyddogion y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant, Cydlynwyr ADY, Penaethiaid, Gwasanaethau Plant, Bwrdd Iechyd



<b>Panel y Tu Allan i'r Sir</b>	Cytuno a monitro lleoliadau mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal gan Sir y Fflint.	Gwasanaethau Plant, Swyddogion y Gwasanaeth Cynhwysiant a Datblygiad, Bwrdd Iechyd
<b>Grŵp Llywio Awtistiaeth</b>	Penderfynu ar y ddarpariaeth amlasiantaeth ar gyfer plant ag awtistiaeth	Bwrdd Iechyd, Awtistiaeth Cymru, Cymdeithas Awtistiaeth Cenedlaethol, Staff Gwasanaeth Cynhwysiant a Datblygiad, Cyngorydd Sir
<b>Grŵp Trosglwyddo</b>	Hwyluso trosglwyddo o'r Gwasanaethau Plant i'r Gwasanaethau Oedolion	Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Oedolion, Swyddogion y Gwasanaeth Cynhwysiant a Datblygiad, Bwrdd Iechyd
<b>Panel Lleferydd, iaith a Chyfathrebu</b>	Adolygu disgyblion ag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu a chynllunio i dderbyn plant i adnoddau iaith.	Therapyddion lleferydd ac iaith, swyddogion cynhwysiant, staff adnoddau iaith
<b>Grŵp Strategol Addysg ac Ieuenctid/Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	Annog arferion gwaith effeithiol ar y cyd.	Rheolwyr y ddau bortffolio, Swyddogion Addysg ac Ieuenctid a Swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol.
<b>Gwasanaethau Integredig ar gyfer Lleferydd ac iaith (ISSAL)</b>	Cydlynu darpariaeth ar gyfer plant ag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu	Therapyddion iaith a Lleferydd, Swyddogion Cynhwysiant a Datblygiad (Wrecsam a Sir y Fflint)
<b>Rhwydwaith 14 - 19</b>	Cydlynu a gweithredu Strategaeth 14-19 Cyngor Sir y Fflint.	Swyddogion Cyngor Sir y Fflint, Coleg Cambria, Cynrychiolwyr Cyflogwyr Lleol, Penaethiaid, Gyrfa Cymru, Sector Gwirfoddol
<b>Grŵp Strategol Lles Emosiynol</b>	Cydlynu a goruchwylio polisi ac arferion yr ALI mewn perthynas ag iechyd a lles emosiynol	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, Uwch Reolwyr Addysg ac Ieuenctid, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Coleg Cambria, Penaethiaid, Uwch Reolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

## RHAN B

### TREFNIADAU CYFFREDINOL AWDURDODAU LLEOL AR GYFER DIWALLU ANGHENION DYSGU YCHWNAEGOL PLANT

#### B1. DARPARU AR GYFER CYNHWYSIANT

##### B1.1 Y STRATEGAETH CYNHWYSIANT

Mae Strategaeth Awdurdod Lleol Sir y Fflint ar gyfer Cynhwysiant wedi'i osod o fewn cyd-destun cyffredinol Strategaeth Gwella a Moderneiddio Addysg y Portffolio Addysg ac Ieuenctid

- Bydd ALI Sir y Fflint yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, 1990, Datganiad Salamanca, Cod Ymarfer AAA Cymru a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 203/2016: *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion a Deddf Cydraddoldeb 2010*;
- Mae cynhwysiant yn ei hanfod yn fater cyfle cyfartal a dylid ei gynnwys ym mhob agwedd o fywyd bob dydd i sicrhau bod plant a phobl ifanc cyn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial fel dinasyddion yn eu cymuned;
- Mae gan bawb yr hawl i gael darpariaeth, gwasanaethau a phrofiadau addysgol o'r ansawdd uchaf;
- Mae ethos cynhwysol yn golygu bod pawb yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi, yn ddiogel, wedi'u parchu, ac yn rhan annatod o'u cymuned ddysgu;
- Mae gan pob plentyn a'u rhieni'r hawl i gael eu trin gyda pharch a dylid eu hannog i wneud eu safbwyntiau'n hysbys, er mwyn gallu eu hystyried;
- Dylid gofalu bod ystyriaeth yn cael ei roi i blant yng nghyd-destun eu hiaith yn y cartref, eu diwylliant a'u cymuned;
- Mae'n rhaid i'r cwricwlwm cynhwysol fod yn ddigon amrywiol, gwahanol ac ag adnoddau digonol i gyd-fynd ag anghenion dysgu unigol y plant a phobl ifanc;
- Mae cynhwysiant yn cynnwys cynyddu a gwneud y gorau o gyfranogiad i ddisgyblion mewn diwylliannau, cyfleoedd cwricwlaidd a chymunedau lleol ysgolion a'r gymuned ehangach;
- Bydd angen i ysgolion sicrhau bod eu diwylliannau, polisïau ac arferion yn gwbl gynhwysol i gefnogi plant Sir y Fflint i gael mynediad i'w darpariaeth leol;
- Mae cynhwysiant yn broses barhaus, yn hytrach na chyflwr sefydlog.

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys pawb yng nghymuned yr ysgol, yn oedolion yn ogystal â phlant.

Rydym wedi ymrwymo i:

- Ddileu'r rhwystrau sy'n eithrio plant a phobl ifanc rhag unrhyw gyfleoedd i gyrraedd eu llawn botensial ym mhob sefyllfa;
- Hyrwyddo system addysgol gynhwysol ym mhob math o ysgolion a darparwyr eraill ym mhob cam addysg o'r blynyddoedd cynnar hyd at fod yn oedolion;
- Agwedd ataliol sy'n cynnwys adnabod anghenion yn gynnar, ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i blant a phobl ifanc;
- Adeiladu capasiti yn ein hysgolion i gefnogi datblygiad arferion mwy cynhwysol;
- Cefnogi arweinyddiaeth effeithiol sy'n cynhyrchu cyfeiriad clir ac yn cefnogi gweithredu newid;
- Mabwysiadu protocolau ac arferion sy'n ein helpu ni i wneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol i helpu i ddatblygu a chynnal arferion cynhwysol;
- Sicrhau bod lles y plentyn a'r teulu wrth wraidd ein gwaith;
- Gwneud penderfyniadau strategol ynglŷn â dosbarthu cyllid ac adnoddau yn seiliedig ar egwyddorion gwybodus yn ymwneud â datblygiadau a blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- Creu timau arbenigol iawn sy'n gweithio yn effeithiol ac ar y cyd i sicrhau gwella safonau ar gyfer plant a phobl ifanc;
- Gwrando a gweithredu ar adborth gan ystod o ddefnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys plant a phobl ifanc;
- Diwylliant o ddisgwyliadau uchel ohonom ni ein hunain, ein hysgolion a'r plant rydym yn eu cefnogi.

## **B1.2 MANYLION YR YSTOD O DDARPARIAETH ARBENIGOL SYDD AR GAEL**

Mae ALI Sir y Fflint yn cydnabod pwysigrwydd mynediad i gontinwrm darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r mwyafrif o'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig mewn ystafelloedd dosbarth arferol yn ysgolion prif ffrwd lleol y plant yn Gweithredu Gan yr Ysgol a Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy.

Fel arfer, mae'r ddarpariaeth yn cynnwys:

- Addasu'r cwricwlwm trwy wahaniaethu, addasu neu ddatgymhwysu
- Addasu'r amgylchedd ddysgu
- Mynediad at offer neu ddeunydd arbenigol
- Mynediad i gefnogaeth ychwanegol gan oedolion

Bydd rhai plant angen darpariaeth sy'n fwy arbenigol o ran natur. Mae'r adran a ganlyn yn rhestru'r ddarpariaeth ychwanegol sydd ar gael yn Sir y Fflint:

**YSGOLION AG ADNODDAU**

Mae gan yr ysgolion a ganlyn gyfleusterau ag adnoddau. Oherwydd natur arbenigol iawn y cyfleusterau hyn, bydd angen i blant a phobl ifanc fel arfer fod â Datganiad o AAA i gael mynediad at y rhain.

<b>YSGOL</b>	<b>MATH O ANGEN</b>	<b>Cyfnod Allweddol</b>
Ysgol Maes y Felin	Anawsterau Cyfathrebu Cymdeithasol	CA2
Ysgol Tŷ Ffynnon	Anawsterau Dysgu Cymedrol	CS/CA2
Ysgol Bryn Coch	Anawsterau Dysgu Cymedrol	CA2
Ysgol Mynydd Isa	Nam Iaith Penodol	CS / CA2
Ysgol Glanrafon	Ystod o AAA drwy gyfrwng y Gymraeg	CS/CA2
Ysgol Maes Glas	Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol	CA2
Ysgol Alun	Nam ar y clyw	CA3/4/5
Ysgol Uwchradd Argoed	Nam Iaith Penodol Anawsterau Cyfathrebu Cymdeithasol	CA3/4 CA3/4
Ysgol Uwchradd Elfed	Anawsterau Cymdeithasol ac Emosiynol	CA3/4
Ysgol Uwchradd Hawarden	Anawsterau Dysgu Penodol	CA3/4/5

Mae pob ysgol uwchradd yn cael arian wedi'i ddirprwyo i gefnogi addysg disgyblion gydag ystod o anawsterau, gan gynnwys anawsterau dysgu cymedrol.

**UNEDAU ATGYFEIRIO DISGYBLION Y PORTFFOLIO**

Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion y Portffolio yn cynnwys ystod o gyfleusterau ar gyfer plant ag anghenion ymddygiad, emosiynol ac anghenion cymdeithasol.

<b>Cyfleuster</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Anghenion wedi'u Diwallu</b>	<b>Cyfnod Allweddol</b>
Canolfan Enfys	Yr Wyddgrug	Cyfleuster asesu ar gyfer disgyblion y mae eu hanghenion sylfaenol yn aneglur	CS
Troi Rownd	Queensferry	Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol sylweddol	CS/CA2
Bryn Tirion	Shotton	Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol dwys a chymhleth	CA3/4
Y Ganolfan Ddysgu	Shotton	Pobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl a gorbryder	CA3/4

**YSGOLION ARBENIGOL**

Mae ysgolion arbenigol ALI Sir y Fflint wedi'u hadeiladu a'u cyflenwi ag adnoddau i ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion sylweddol a chymhleth yn ymwneud â gwybyddiaeth a dysg. Efallai bod gan ddisgyblion sy'n cael llefydd anawsterau cysylltiedig hefyd, e.e. Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig, ac Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol. Rhagwelir y bydd disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol yn cael darpariaeth naill ai yn eu hysgol gynradd prif ffrwd leol, adnoddau cynradd arbenigol neu mewn ysgolion uwchradd lleol, ac y bydd lle ond yn cael ei roi mewn ysgolion arbenigol dan amgylchiadau eithriadol.

<b>YSGOL</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Cyfnod Allweddol</b>
Ysgol Pen Coch	Safle ar y cyd gydag Ysgol Gwynedd, y Fflint	Cyfnod Sylfaen / CA2
Ysgol Maes Hyfryd	Safle ar y cyd gydag Ysgol Uwchradd y Fflint, Fflint Canolfan Ioeren, Ysgol Uwchradd Elfed, Bwcle	CA3/4/5 CA3/4

Bydd pob lleoliad yn narpariaeth arbenigol Sir y Fflint wedi'i bennu gan Banel Cymedroli'r Awdurdod Lleol.

### **B1.3 GWASANAETH CYNHWYSIANT A DILYNIANT ALL SIR Y FFLINT**

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant yn ceisio helpu rhieni, ysgolion a darparwyr eraill i ddiwallu anghenion addysgol plant ag ADY. Mae'n gwneud hynny yng nghyd-destun ehangach Gwasanaeth Gwella Ysgolion yr ALI trwy geisio gwneud y gorau o'r cynnydd a wnaed yn yr ysgol gan blant ag ADY.

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant yn rhoi cyngor, arweiniad a chefnogaeth mewn perthynas ag ystod eang o ADY.

## **B2 DARPARIAETH AR GYFER PLANT MEWN LLEOLIADAU BLYNYDDOEDD CYNAR**

Mae plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar fel dosbarthiadau meithrin wedi'u cynnal a heb eu cynnal, a grwpiau chwarae hefyd yn dod dan God Ymarfer AAA Cymru. Felly, mae ganddynt hawl i gael adnabod a diwallu unrhyw ADY. Yn unol â'r Ymateb Graddol, bydd Cynllun Addysg Unigol yn cael ei lunio ar gyfer plant a nodwyd sydd ag AAA a bydd yn awgrymu'r ddarpariaeth i'w gweithredu i gefnogi'r plentyn yn Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar neu Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy.

Mae gan y Tîm Hawl Blynyddoedd Cynnar swyddogaeth wrth roi gwybod i leoliadau blynyddoedd cynnar am eu cyfrifoldebau a dyletswyddau dan y Cod Ymarfer AAA. Mae'r tîm hwn yn cyflogi athro â gwybodaeth o'r cod ymarfer sy'n cynorthwyo staff yn y lleoliadau hyn i adnabod a diwallu ADY. Mae gan Seicolegydd Addysg hefyd gyfrifoldeb penodol am y maes gwaith hwn yn ychwanegol at swyddogaethau eraill.

Pan fo gan blentyn anghenion difrifol a chymhleth gellir gofyn am asesiad statudol gan yr ALI. Bydd yr ALI yn cymedroli'r angen am asesiad o'r fath yn ôl ei feini prawf, sy'n cynnwys adran benodol ar gyfer plant blynyddoedd cynnar. Os yw'r plentyn a'i amgylchiadau yn diwallu'r meini prawf hyn, cynhelir asesiad statudol yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru.

### **B3 ADNABOD PLANT GYDAG ADY**

Mae angen i bob ysgol fod â pholisi yn amlinellu ei ymateb i God Ymarfer AAA Cymru. Yn y polisi hwn, bydd y trefniadau ar gyfer adnabod plant ag ADY yn cael eu disgrifio a bydd fel arfer yn cynnwys detholiad o'r canlynol:

- Arsylwi gan y dosbarth, testun neu athro bugeiliol;
- Arsyllwadau rhieni;
- Asesiad sy'n cyfeirio at feini prawf; ➤ Asesiad gwaelodlin; a ➤ Phroffion Safonol.

Efallai gall blant y mae eu lefel ADY angen adnoddau ychwanegol gan yr ALI fod â cheisiadau am asesiad statudol o dair ffynhonnell:

- Ysgolion;
- Rhieni; ac
- Asiantaethau eraill.

Yn unol â'r Cod Ymarfer AAA, mae'r ALI wedi ysgrifennu meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau am anghenion plant ar gyfer asesu a darpariaeth ychwanegol. Mae angen i geisiadau o'r fath gael eu cefnogi gyda thystiolaeth:

- Bod yr ysgol wedi adnabod a darparu ar gyfer AAA bob plentyn yn Gweithredu Gan yr Ysgol a Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy.
- Nad yw'r plentyn wedi gwneud cynnydd digonol gyda'r lefel gefnogaeth a ddarperir; a
- Bod anawsterau'r plentyn yn parhau ar lefel ddifrifol.

### **B4 MONITRO DERBYN PLANT AG ADY**

#### **POLISI DERBYN ALL**

Mae'r ALI yn cynnal polisi mynediad ar gyfer ei holl ysgolion. Mae hwn yn cyfeirio at y gweithdrefnau mynediad ar gyfer bob disgybl gan gynnwys y rhai ag ADY. Mae copi o'r polisi yn cael ei ddarparu i holl rieni Sir y Fflint ar yr adegau perthnasol yng ngyrfa addysgol eu plentyn ac mae hefyd ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint.

#### **Yr ystod o Ddarpariaeth Anghenion Ychwanegol yn Sir y Fflint**

Adolygir yr ystod darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn barhaus. Bydd derbyn plant â datganiadau AAA yn cael ei fonitro trwy'r dulliau a ganlyn:

- Mae Paneli Cymedroli Asesu Statudol yn monitro derbyn disgyblion unigol â datganiadau i ddarpariaeth prif ffrwd ac arbenigol;

- Mae adolygiadau blynyddol o ddatganiadau yn monitro perthnasedd parhaus lleoliad y plentyn; ac
- Mae ysgolion unigol yn monitro lleoliadau plant trwy adolygiadau Gweithredu Gan yr Ysgol neu Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy.

## **B5 TREFNU ASESAD STATUDOL**

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cydlynu'r broses asesu statudol fel y nodwyd yn y Cod Ymarfer AAA Cymru (2002) a'i Reoliadau cysylltiol.

### **Ceisiadau am asesiadau statudol**

Os credir bod gan blentyn neu berson ifanc AAA sylweddol a thymor hir, gellir gwneud cais i'r ALI am asesiad statudol. Gall rieni, ysgolion neu asiantaethau eraill wneud y cais hwn, ac mae'n rhaid i'r ALI ei ystyried. Yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru (2002), mae ALI Sir y Fflint wedi sefydlu panel cymedroli i ystyried pob cais o'r fath ac mae meini prawf ar gyfer ystyried y ceisiadau hyn.

Mae'r ceisiadau asesu yn cael eu hystyried gan y Panel Cymedroli sy'n cynnwys ystod o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys Swyddogion Cynhwysiant, Proffesiynol, Penaethiaid a Chydlynwyr ADY. Mae dogfen ganllawiau yn bodoli i hysbysu aelodau'r panel. Mae'n disgrifio'r meini prawf ar gyfer ystyried y ceisiadau. Nodir Swyddog Penodedig ar gyfer bob atgyfeiriad. Os na fydd cais yn cael ei dderbyn, anfonir llythyr o eglurhad at rieni a'r plentyn, sydd â hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Os yw'n cael ei dderbyn, bydd yr asesiad yn cael ei gychwyn yn syth a bydd ceisiadau yn cael eu hanfon at yr asiantaethau perthnasol yn gofyn am gyngor ynglŷn â'r plentyn.

### **Y Broses Asesu**

Pan fydd yr holl gyngor wedi'i dderbyn, bydd yn cael ei anfon at aelodau'r Panel Cymedroli cyn y cyfarfod. Yn y cyfarfod, mae holl aelodau'r panel yn mynegi eu barn ar anghenion y plentyn am Ddatganiad AAA ac, os oes angen Datganiad, beth ddylai hwn ei gynnwys. Os penderfynir peidio rhoi datganiad, anfonir llythyr o eglurhad at y rhieni a'r plentyn, sydd â hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Os oes angen Datganiad, bydd yr ALI yn ceisio cyhoeddi un o fewn deunaw wythnos i ddechrau'r asesiad. Yna gall y rhieni a'r plentyn drafod manylion y datganiad gyda'r Swyddog a enwir. Yn y pen daw, cyhoeddir datganiad terfynol ar bob plentyn, gan adnabod anghenion unigol y plentyn, y ddarpariaeth i'w diwallu a'r lleoliad lle cynigir y ddarpariaeth.

### **B5.1 Y BROSES FODERNEIDDIO**

'Cymedroli' yw'r gair a ddefnyddir yn yr Awdurdod Lleol, ar gyfer cyfarfod sy'n cynnwys grŵp o weithwyr proffesiynol sy'n helpu'r ALI i wneud penderfyniadau cyson ynglŷn ag:

- a ddylai plentyn gael asesiad statudol; ➤ a ddylai plentyn gael datganiad; a
- pha ddarpariaeth y dylid ei gynnig i ddiwallu anghenion y plentyn.

Yn Sir y Fflint, rydym yn cyfeirio at y cyfarfod fel y 'Panel Cymedroli'.

## 1. Pam fod yr ALI yn cynnal cyfarfodydd Panel Cymedroli?

Dyma beth y mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, 2002, yn ei ddweud ynglŷn â Phanelau Cymedroli:

**3:74** *Er lles sefydlu dehongliad lleol a gytunwyd, gall ALI weithredu grwpiau cymedroli i gefnogi'r ALI i wneud penderfyniadau cyson. Gall grwpiau o'r fath gynnwys penaethiaid, Cydlynwyr AAA, llywodraethwyr, seicolegwyr addysg a chydweithwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Gall ALI ddefnyddio grwpiau tebyg o weithwyr proffesiynol i ystyried y dystiolaeth ar gyfer pob atgyfeiriad ar gyfer asesiad statudol, fel bod gan yr ALI gyngor a chefnogaeth tîm o weithwyr proffesiynol amrywiol i wneud penderfyniadau ynglŷn â chynnal asesiadau neu beidio.... Gallant hefyd helpu i gefnogi gwneud penderfyniadau cyson ac eglur gan ysgolion ac ALI*

**8:9** *Mae'n ddefnyddiol i ALI sefydlu grwpiau cymedroli i gefnogi eglurder yn y broses gwneud penderfyniadau. Gall grwpiau o'r fath sicrhau bod penderfyniadau cyson yn cael eu gwneud ynglŷn â gwneud datganiadau. Trwy samplu a chymhariaeth ôl-weithredol, gall grwpiau cymedroli hefyd helpu arferion ALI i fod yn fwy cadarn a sicrhau bod ysgolion, lleoliadau addysg a rhieni yn eu deall.*

Felly, mae Sir y Fflint yn diwallu'r gofynion Cod Ymarfer trwy'r Panel Cymedroli.

## 2. Pwy sydd ar y Panel Cymedroli?

Mae'r Panel Cymedroli yn cynnwys nifer o'r gweithwyr proffesiynol a ganlyn. Mae rhai yn cael eu dewis gan fod ganddynt wybodaeth arbenigol o blant ag anghenion ychwanegol. Mae eraill yn cael eu dewis gan eu bod yn gyfrifol am ddyraniad adnoddau cyfyngedig yr ALI.

Gall y panel drafod anghenion sawl plentyn ym mhob cyfarfod cymedroli. Maent yn edrych ar y dystiolaeth a ddarperir gan rieni ac ysgolion ac yn cydweithio i benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad pellach.

Mae'r bobl sy'n eistedd yn rheolaidd ar y panel yn cynnwys:

- Ymgynghorwyr Dysgu ADY
- cynrychiolydd o'r ysgol
- un neu fwy o swyddogion y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant ALI
- Seicolegydd Addysg

Rhoddir gwybod i'r rhieni a'r plentyn bob amser am y penderfyniadau a wnaed gan y panel ac yna gallant drafod y penderfyniadau rhyngddynt eu hunain, neu gyda'r gwasanaethau cynnal dynodedig, e.e. Cyfaill Achos, Partneriaeth Rhieni.

## 3. Pa mor aml mae'n cyfarfod?



Mae'r Panel Cymedroli yn Sir y Fflint yn cyfarfod ar ddydd lau bob pythefnos drwy dymhorau'r ysgol.

#### 4. Am beth maent yn siarad?

Bydd y panel yn siarad am gyfradd cynnydd y plentyn yn yr ysgol. Byddant yn trafod y cymorth y mae'r ysgol wedi'i roi yn Gweithredu Gan yr Ysgol a'r gefnogaeth ychwanegol y mae'r ysgol ac arbenigwyr allanol wedi'i roi yn Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy.

Cyn y gellir cynnal asesiad statudol, disgwylir i'r ysgol ddangos ei fod eisoes wedi gwneud cymaint â phosibl i gefnogi'r plentyn. Er enghraifft, mae'n rhaid ei fod wedi gofyn am, a gweithredu ar gyngor arbenigwyr allanol. Mae'n rhaid i raglenni neu newidiadau a awgrymwyd fod wedi'u rhoi ar waith am ddigon hir i ddangos a ydynt yn effeithiol neu beidio.

Mae'r panel yn defnyddio canllawiau gan y Cod Ymarfer i wirio'r dystiolaeth, sef:

**7:13** *Wrth wneud cais am asesiad statudol, dylai'r ysgol neu'r lleoliad nodi'n glir beth yw'r rhesymau dros y cais a chyflwyno'r dystiolaeth a ganlyn:*

- *barn y rhieni a gofnodwyd yn Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu Gweithredu yn yr Ysgol a Gweithredu yn yr Ysgol a Mwy.*
- *barn canfyddadwy'r plentyn*
- *copïau o'r Cynlluniau Addysg Unigol yn Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy*
- *tystiolaeth o gynnydd dros amser*
- *copïau o gyngor, os ydynt ar gael, gan iechyd a gwasanaethau cymdeithasol*
- *tystiolaeth o ymglymiad a barn gweithwyr proffesiynol gyda gwybodaeth ac arbenigedd arbenigol perthnasol y tu allan i gymhwysedd arferol yr ysgol neu'r lleoliad.*
- *tystiolaeth o i ba raddau y mae'r ysgol neu leoliad wedi dilyn y cyngor a ddarperir gan weithwyr proffesiynol gyda gwybodaeth arbenigol perthnasol.*

Mae'r Panel Cymedroli hefyd yn defnyddio'r ddogfen Sir y Fflint 'Meini Prawf Asesu Statudol' sy'n esbonio gofynion y Cod Ymarfer yn fanylach.

Os yw'r panel yn gwneud penderfyniad i beidio asesu'r plentyn, gall fod oherwydd:

- eu bod yn meddwl y gall yr ysgol wneud mwy i gefnogi'r plentyn
- y gall yr ALI ddarparu cefnogaeth ychwanegol heb ddatganiad
- bod y plentyn yn gwneud cynnydd digonol heb fod angen yr asesiad hwn

Mae gan rieni a phlant hawl i apelio i'r *Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd dros Gymru* yn erbyn y penderfyniad (Rhif ffôn 0300 025 9800).

Os yw'r panel yn penderfynu:

- bod yr ysgol wedi gwneud y cyfan sy'n bosibl ac
- nad yw'r plentyn yn gwneud cynnydd boddhaol,

gyda chaniatâd y rhieni, bydd y weithdrefn asesu statudol yn cychwyn.

## 5. Canlyniad yr Asesiad Statudol

Yn dilyn yr asesiad, bydd y Panel Cymedroli yn cyfarfod eto i drafod y canfyddiadau a phenderfynu ar y gefnogaeth y dylai plant ei gael. Gall benderfynu nad yw plentyn angen datganiad anghenion addysgol arbennig ac yn lle hynny, bydd yn ysgrifennu Nodyn yn lle Datganiad.

Yn wahanol i'r datganiad anghenion addysgol arbennig, nid yw Nodyn yn lle Datganiad yn ddogfen gyfreithiol.

- Mae'n disgrifio, yn fanwl, beth mae'r ALI wedi'i ddysgu am blentyn.
- Mae'n gwneud argymhellion i'r ysgol ddiwallu anghenion y plentyn. ➤ Gall nodi'r trefniadau ar gyfer adolygiad.

Os yw'r rhieni neu'r plentyn yn anghytuno gyda'r penderfyniad, gallant apelio i'r *Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd dros Gymru*. (Rhif ffôn: 0300 025 9800).

Os yw'r Panel Cymedroli yn penderfynu bod plentyn angen datganiad anghenion addysgol arbennig, bydd yn trafod y ddarpariaeth arbennig y mae'r panel yn credu fydd yn diwallu anghenion y plentyn. Bydd y rheini a'r plentyn yn cael gwybod am y ddarpariaeth mewn Datganiad *Arfaethedig*. Os ydynt yn cytuno gyda'r cynnwys, bydd y ddarpariaeth ar gyfer y plentyn yn cael ei sefydlu a bydd y Datganiad Terfynol yn cael ei gyhoeddi.

Bydd rhan o'r ddarpariaeth i'w benderfynu yn cynnwys y lleoliad ysgol. Blaenoriaeth ALI Sir y Fflint yw galluogi disgyblion i aros yn agos i'w hardal cartref a bydd hyn yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar leoliad priodol. Os gwneir cais am leoliad y tu allan i Sir y Fflint, gan y rhiant neu'r gweithiwr proffesiynol, bydd y Swyddog a Enwir yn gwneud sylwadau ar ffurf gwerthusiad dewisiadau i banel comisiynu ar y cyd sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Adran Addysg, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y panel yn ystyried yr achos a gwneud penderfyniad ynglŷn â'r angen am leoliad allanol. Bydd rhieni yn cael gwybod am y penderfyniad a'r rheswm y tu ôl iddo.

Os nad ydynt yn cytuno â'r datganiad arfaethedig, gallant ofyn am gael gwneud newidiadau. Bydd y Swyddog a Enwir yn trafod eu cais, gan ystyried lles y plentyn a dyletswydd yr ALI i wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau.

Gall rhieni a phlant apelio yn erbyn unrhyw benderfyniadau a wneir. Pan fydd y rhieni a'r plentyn yn cytuno â chynnwys y datganiad arfaethedig, bydd yr ALI yn rhoi Datganiad *Terfynol* iddynt.

## **B6 RHOI CEFNOGAETH I YSGOLION YNGLŷN Â DARPARU AR GYFER PLANT AG ADY**

### **Ysgolion prif ffrwd**

Mae gan ysgolion prif ffrwd sawl ffrwd ariannu:

- Cymerir yn ganiataol bod swm tybiedig o arian yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion ar gyfer darpariaeth ADY o'r cyllid gan yr uned ddisgyblion yn ôl oedran. Mae'r ALI yn argymhell bod o leiaf 5% o gyllideb yr ysgol gyfan yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae cyllideb i gefnogi ADY yn rhan o gyllideb ysgolion dirprwyedig cyffredinol yr ysgolion. Mae cyfran o hwn yn cael ei ddyrannu i ysgolion unigol trwy fformwla. Gellir cael arian ychwanegol o'r gyllideb Adnoddau Ychwanegol ar ffurf Dyraniad 'ychwanegol'. System fandio yw hwn, lle bydd y dyraniad yn seiliedig ar ddifrifoldeb yr anghenion. Mae 3 band ariannu, sef:

*Band A* – mae'r plentyn yn arddangos peth anghenion am raglenni unigol dysgu, iaith a sgiliau chymdeithasol, yn ogystal ag addasu rhai rhannau o'r cwricwlwm. Mae angen rhaglenni datblygu ychwanegol i fynd i'r afael ag anawsterau personol gan gynnwys ymddygiad, lleferydd ac iaith a chyfathrebu cymdeithasol.

*Band B* – mae'r plentyn yn arddangos lefel uchel o anghenion am raglenni unigol yn y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm. Mae angen cefnogaeth ychwanegol, 1:1 yn aml, i gaffael sgiliau dysgu sylfaenol a chymhwysedd cymdeithasol. Mae angen cefnogaeth unigol gyson ac agos iawn ar gyfer anghenion academaidd ac anghenion gofal.

*Band C* – Defnyddir hwn mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd y plentyn yn arddangos anghenion iechyd sylweddol/difrifol tymor hir sy'n arwain at fod angen goruchwyliaeth ddwys gan oedolion ar gyfer anghenion meddygol, hunan ofal, corfforol a symudedd i gefnogi mynediad at addysg.

Bydd dyraniad band yn cael ei bennu trwy'r Panel Cymedroli ac mae'n cael ei gefnogi trwy wybodaeth a geir gan rieni, ysgolion a gwasanaethau arbenigol eraill. Bydd hon yn rhaglen wedi'i phersonoli sy'n cynnwys ymyrraeth benodol gan yr athro, gwaith grŵp wedi'i dargedu, cyfnodau 1:1, mewnbwn gan ystod o staff/arbenigwyr, mynediad i ddarpariaeth arbenigol oddi ar y safle.

- Mae gan yr ALI system o Ysgolion ADY ag Adnoddau. Bydd arian ar gyfer y cyfleusterau hyn yn cael ei ddyrannu drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth a gytunwyd gan gorff llywodraethu bob ysgol.

## **Ysgolion Arbennig**

Ariennir ysgolion arbennig trwy archwiliad blynyddol sy'n rhoi plant mewn bandiau ariannu sy'n amrywio yn ôl difrifoldeb a chymhlethdod anghenion y plentyn.

## **B7 ARCHWILIO CYFFREDINOL, CYNLLUNIO, MONITRO AC ADOLYGU DARPARIAETH AR GYFER PLANT AG ADY**

Bydd yr ALI yn gweithio gydag ysgolion i fonitro effeithiolrwydd yr arian a ddyrennir i'r ADY wrth ddiwallu'r anghenion hyn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy'r dulliau a ganlyn:

- Cwblhau CYBLD, cyfrifiad blynyddol lle bydd ysgolion yn adnabod ystod a difrifoldeb anghenion unigol y disgyblion;
- Adnabod a rhannu arferion effeithiol gyda'r holl ysgolion;
- Ymweliadau blynyddol â ffocws i'r ysgolion arbenigol;
- Arweiniad i'r ysgolion ar y mathau o dargedau y gellir eu gosod; a
- Monitro trwy ystod o gyfarfodydd amlasiantaeth gan gynnwys adolygiadau dros dro a blynyddol o Ddatganiadau ADY.

## **B8 CYNLLUNIO, MONITRO AC ADOLYGU DARPARIAETH AR GYFER PLANT UNIGOL**

### **Gweithredu gan yr Ysgol / Gweithredu gan yr Ysgol**

Mae *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002)*, yn rhoi arweiniad yn amlinellu cyfrifoldebau ysgolion, yr Awdurdod Lleol a phartneriaid eraill mewn perthynas â phlant ag AAA. Y man cychwyn yw adnabod anghenion unigolyn ac yna datblygiad y rhaglen ymyrraeth gan yr ysgol sydd wedi'i dargedu i gefnogi cynnydd yn y meysydd a nodwyd. Mae gan rieni a gofawyr swyddogaethau allweddol i'w chwarae wrth gefnogi eu plentyn, gydag agwedd partneriaeth yn hanfodol i'r cynnydd a gyflawnir.

Disgrifir plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol ar y lefel hon fel rhai sydd ar y cam Gweithredu gan yr Ysgol (SA). Mewn rhai achosion, gall unigolyn fod ag anghenion mwy cymhleth lle bydd angen cyngor, arweiniad a chefnogaeth gan weithwyr proffesiynol eraill, yn allanol i'r ysgol. Disgrifir y plant hyn fel rhai ar y cam Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (SAP). Yn SA a SAP, dylid ysgrifennu Cynllun Addysg Unigol yn amlinellu'r targedau unigol a'r ddarpariaeth i'w gwneud mewn perthynas â'r rhain. Dylai plant a rhieni fod ynghlwm â chynhyrchu ac adolygu'r Cynllun Addysg Unigol.

### **Plant â Datganiadau**

Cynhelir Adolygiad Blynyddol gyda phob plentyn â Datganiad AAA. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed gan y plentyn. Mae'r ALI, naill ai drwy'r gwasanaeth ADY, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, neu wasanaethau arbenigol eraill, yn cael eu cynrychioli yn y rhan fwyaf o adolygiadau blynyddol. Mae'r ALI yn gofyn yn benodol i ysgolion wahodd swyddogion i adolygiadau trosglwyddo neu adolygiadau lle mae cynnydd y plentyn neu'r lleoliad yn peri pryder. Bydd pob adroddiad adolygu blynyddol yn cael eu craffu gan y Swyddog a Enwyd. Os yw'r adroddiad yn nodi unrhyw achos pryder, bydd y swyddog yn ei gyflwyno i'r Panel Cymedroli i'w graffu ymhellach.

Mae'r ALI wedi adolygu ei fformat adolygu blynyddol safonol. Mae'r fformat newydd yn ei gwneud yn ofynnol i roi mesurau cynnydd dibynadwy a gwrthrychol i'r tîm adolygu a'r ALI.

## **B9 CEFNOGI PLANT GYDAG ADY DRWY GWEITHREDU GAN YR YSGOL A GWEITHREDU GAN YR YSGOL A MWY**

Yn eu Polisi Cynhwysiad/ADY, bydd ysgolion yn disgrifio'r math o ddarpariaeth a wnaed ar gael yn Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Bydd canllawiau yn cael eu cyflwyno gan yr ALL i gefnogi ysgolion gyda hyn.

## **B10 SICRHAU HYFFORDDIANT, CYNGOR A CHEFNOGAETH I STAFF SY'N GWEITHIO GYDA PHLANT AG ADY**

### **HMS yn yr ysgol**

Mae arian yn cael ei ddirprwyo i'r ysgolion i ariannu hyfforddiant i staff ddiwallu anghenion plant ag ADY. Mae Cydlynwyr HMS yr Ysgol yn blaenoriaethu anghenion hyfforddi'r ysgol a bydd yn estyn gwahoddiad i siaradwyr neu drefnu i staff fynychu'r cyrsiau priodol.

### **HMS a arweinir gan yr ALL**

Mae'r ALL yn darparu rhaglen reolaidd o hyfforddiant ADY ar gyfer ei ysgolion. Mae'r rhaglen hon yn seiliedig ar anghenion hyfforddiant a nodwyd trwy ymgynghori ag ysgolion, ffurflenni gwerthuso o gyrsiau blaenorol a thrwy flaenoriaethau hyfforddiant yr ALL eu hunain. Mae'r mathau o hyfforddiant a chyngor gan yr ALL fel a ganlyn:

- Cyrsiau a gynigir trwy'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd rheolaidd.
- Hyfforddiant sy'n ymwneud â Chod Ymarfer AAA Cymru (2002);
- Hyfforddiant sy'n ymwneud â'r Ddeddf Cydraddoldeb;
- Digwyddiadau unigol ar destunau penodol fel Awtistiaeth;
- Cyngor ac arweiniad ar unigolion neu grwpiau a gynigir gan y gwasanaethau cefnogi canolog;
- Cefnogaeth dros e-bost;
- Fforymau Cydlynwyr ADY; a
- Arfer da a rennir.

## **B11 DYRANIADAU CYLLIDEB ALL AC YSGOL I BLANT GYDAG ADY.**

### **Ffrydiau Ariannu/Adnoddau ar gyfer disgyblion ag ADY**

Mewn ysgolion prif ffrwd, mae pedair prif ffynhonnell gyllid ar gyfer disgyblion ag ADY. Y rhain yw:

- Swm tybiedig o gyllideb gyfan yr ysgol ac eithrio'r swm a ddyrannwyd yn benodol i blant ag ADY (argymhellir 5% o gyfanswm y gyllideb);
- Cyllid cyffredinol a ddirprwyir i'r ysgol ar gyfer plant ag ADY;
- Arian a ddirprwyir ar gyfer dosbarthiadau ag Adnoddau; a

- Chyllid neu adnoddau a ddirprwyir sydd wedi'u dyrannu i ddisgyblion penodol.

### **Ariannu Ysgolion Arbennig**

Defnyddir fformwla i gyfrifo'r cyllid ar gyfer ysgolion arbennig. Mae cyllid disgyblion yn cael ei ariannu yn erbyn y pum categori o anghenion gyda phob categori yn sicrhau'r cyllid sy'n gymesur i anghenion unigol.

### **Cyllid sydd gan yr ALI i ddiwallu ADY**

Mae'r ALI yn cadw arian yn ôl i ddisgyblion ag ADY yn y meysydd a ganlyn:

- Gwasanaeth Seicoleg Addysg;
- Gwasanaethau Cynhwysiant Cymdeithasol a Llesiant;
- Gwasanaethau Cynhwysiant Dysgu;
- Gweinyddu asesiad statudol;
- Uwch Reolwr - Cynhwysiant a Dilyniant;
- Costau disgyblion anrhagweladwy;
- Cyfleusterau Uned Cyfeirio Disgyblion; a
- Darpariaeth arbenigol yr ALI heb ei gynnal.

### **Darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY y gall ysgolion ei ddisgwyl gan gyllid a gedwir gan yr ALI.**

- Aseiad statudol o'r plant y mae eu hatgyfeiriadau yn diwallu meini prawf y sir;
- Cyflwyno Datganiadau AAA neu Nodiadau yn lle Datganiad yn dilyn asesiad statudol;
- Cyngor, ymgynghoriad ac arweiniad ar blant ag ADY, yn ôl natur a difrifoldeb eu hanghenion;
- Os yw'n briodol ac yn hanfodol, asesiad unigol plant ag ADY, yn ôl natur a difrifoldeb eu hanghenion;
- Os yw'n briodol, gwaith unigol neu grŵp gyda phlant ag ADY, yn ôl natur a difrifoldeb eu hanghenion;
- Dysgu arbenigol uniongyrchol os yw plant yn diwallu'r meini prawf ar gyfer y gefnogaeth hon trwy ddatganiad neu trwy Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy;
- Prynu eitemau offer drud iawn ar gyfer plant unigol na allai'r ysgol ddisgwyl iddynt eu darparu yn rhesymol o'u hadnoddau eu hunain. Fel arfer, bydd hyn yn seiliedig ar argymhellion ffisiotherapyddion neu therapyddion galwedigaethol;
- Lleoliad mewn cyfleusterau arbenigol a reolir gan yr ALI ar gyfer plant ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol; a
- Lleoliad mewn cyfleusterau ac ysgolion arbenigol nas cynhelir ar gyfer plant nad yw ein hysgolion a'n cyfleusterau yn gallu diwallu eu hanghenion eithriadol.

## **B12 MONITRO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CEFNOGI ADY CANOLOG**

Mae gwasanaethau canolog i blant ag ADY yn perthyn i Wasanaeth Cynhwysiant a Datblygu sengl. Mae'r Uwch Reolwr – Cynhwysiant a Datblygiad yn arwain y gwasanaeth ac yn ffurfio rhan o Uwch Dîm Rheoli Addysg ac Ieuenctid yr ALI, gan adrodd i'r Prif Swyddog – Addysg ac Ieuenctid.

Mae adolygu effaith y gwasanaeth yn swyddogaeth gyfannol ar gyfer bob rheolwr Cynhwysiant a Datblygiad. Bydd canlyniadau disgyblion yn cael eu monitro a'u hadolygu, a'u hystyried mewn perthynas â chyllideb y gwasanaeth i sicrhau defnydd effeithlon o gyllid yr ALI. Disgwylir i wasanaethau ymgynghori yn rheolaidd gyda'u defnyddwyr a defnyddir yr wybodaeth hon i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau.

Mae gan Uned Atgyfeirio Disgyblion y Portffolio (PPRU) Bwyllgor Rheoli. Mae ganddi hefyd swyddogaeth debyg i swyddogaeth corff llywodraethu ar gyfer yr holl gyfleusterau unigol sy'n llunio'r PPRU. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd a bydd yr effaith/canlyniadau yn cael eu hystyried ynghyd â datblygiad y gwasanaeth.

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Datblygiad hefyd yn amodol ar adolygiad trwy ddangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol. Mae hwn yn ffurfio rhan o waith monitro Cyngor Sir y Fflint a bydd cynnydd yn cael ei adrodd yn chwarterol ac mae'n agored i'w graffu gan aelodau'r Cyngor.

Darperir gwaith monitro allanol trwy Estyn fel rhan o'r broses archwilio ar gyfer ALI.

### **B13 MONITRO AC ADOLYGU GWASANAETHAU PARTNERIAETH RHINI**

Mae'r ALI wedi cytuno ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor ar Bopeth i ddarparu Gwasanaeth Partneriaeth i Rieni. Bydd y gwasanaeth yn cael ei adolygu trwy:

- adroddiad ysgrifenedig blynyddol gan CAB i'r Prif Swyddog – Addysg ac Ieuencid Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar nifer a natur a chanlyniad yr atgyfeiriadau a gafwyd gan y Gwasanaeth yn y flwyddyn cyn hynny; a
- presenoldeb gan staff Partneriaeth Rhieni mewn Gweithdai Portffolio Addysg ac Ieuencid.

### **B14 YSTYRIED NIFEROEDD DISGYBLION CYFREDOL AC WEDI'U RHAGWELD**

Mae'r ALI yn cadw gwybodaeth am yr holl blant â datganiadau ar gronfa ddata ganolog – ONE. Gellir defnyddio'r wybodaeth i ragweld tueddiadau i'r dyfodol ar gyfer plant yn ymwneud â'r math o angen a'i ddifrifoldeb. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Datblygiad yn gweithio yn y ffordd a ganlyn i wella arferion yn y maes hwn:

- gweithio yn agos gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i gael gwybodaeth am blant ifanc anabl iawn yn gynharach fel y gellir cynllunio darpariaeth a lleoliadau yn llawer cynt; a
- dadansoddi data asesiad sylfaenol i ragweld tueddiadau'r dyfodol.

Bydd y Gwasanaeth Cynhwysiant a Datblygiad yn cael ei gynrychioli ar Fforwm Mynediad Ysgolion yr ALI sy'n goruchwyllo darpariaeth mannau ysgolion yn Sir y Fflint.

## **B15 MONITRO'R MATHAU O ANGHENION A NODWYD A LLE BYDD PLANT YN CAEL EU LLEOLI**

Mae'r ALI wedi sefydlu set o Ddangosyddion Perfformiad (DP) ar gyfer ei ysgolion a'r Portffolio Addysg ac Ieuenctid. Defnyddir y DP hyn i fesur effeithiolrwydd ysgolion wrth ddiwallu ADY a'r Gwasanaeth wrth gynorthwyo ysgolion i wneud hynny ac maent wedi'u cofnodi yng Nghynlluniau Gwella'r Cyngor a'r Portffolio. Maent yn cael eu hadolygu fel rhan o'r cylch gwella.

Mae pob plentyn ag AAA yn destun proses adolygu, e.e. Adolygiadau Cynllun Addysg Unigol, adolygiadau Datganiadau Blynyddol, adolygiad Cynllun Cefnogi Bugeiliol ayyb, dim ots a ydynt yn mynychu ysgol prif ffrwd lleol neu ddarpariaeth annibynnol arbenigol. Mae'r ALI yn cael trosolwg o'r cynnydd o safbwynt unigolion a grwpiau trwy swyddogaeth y swyddogion allweddol neu trwy wasanaethau ar y cyd fel Gwasanaeth Gwella Ysgolion GwE.

Bydd yr ystod darpariaeth sydd ei angen i ddiwallu'r anghenion yn cael eu hadolygu, a gwybodaeth gan y Paneli Cymedroli a'r Panel Lleoliad y Tu Allan i'r Sir. Defnyddir hwn i ailffurfweddu neu gomisiynu darpariaeth yn ôl yr angen.

### **Effaith ysgolion / y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant**

Defnyddir dangosyddion perfformiad lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ym mhob cam addysgol i fesur cynnydd holl ddysgwyr Sir y Fflint a gwerthuso effaith y gwasanaethau cefnogi penodol.



**RHAN C****GEIRFA**

ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
Cydlynnydd ADY	Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol – dylai bod gan bob lleoliad blynyddoedd cynnar ac ysgol un o'r rhain. Gweler cod ymarfer 4:15 - 4:16 mewn perthynas â lleoliadau blynyddoedd cynnar; 5:30 - 5:32 mewn perthynas ag ysgolion cynradd; a 6:32 - 6:35 mewn perthynas ag ysgolion uwchradd. (Mae'r term hwn yn disodli'r term SENCo)
BESD	Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
Wedi'i ddirprwyo	Bydd arian sydd wedi'i 'ddirprwyo' yn cael ei roi i'r ysgol i bwrpas penodol. Bydd y swm ar gyfer bob ysgol yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio fformwla.
Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar	Cam cyntaf yr ymateb graddol mewn lleoliad blynyddoedd cynnar (gweler y cod ymarfer 4:9 - 4:14)
Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy	Ail ran yr ymateb graddol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Bydd gweithwyr yn y lleoliadau hynny yn ceisio cymorth neu gyngor gan asiantaethau eraill, fel y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol neu'r Gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith.
Gwasanaeth Seicoleg Addysg	Bydd y Seicolegwyr Addysg yn hyrwyddo datblygiad, ymddygiad a dysg plant. Maent yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr, athrawon a phobl sy'n gweithio gydag asiantaethau eraill.
Cynllun Addysg Unigol	Cynllun ysgrifenedig yw hwn, gyda sawl targed. Dylai rhieni a disgyblion fod ynghlwm â chreu ac adolygu'r cynllun.
ALI	Awdurdod Lleol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n darparu gwasanaethau iechyd lleol.
MLD	Anawsterau Dysgu Cymedrol
NNEB	Talfyriad o'r 'Bwrdd Arholi Gweinyddes Feithrin' sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio fel talfyriad o 'Gweinyddes Feithrin'.

Nodyn yn lle Datganiad	Weithiau, pan fydd yr ALI wedi cwblhau asesiad statudol, ni fydd yn cyhoeddi datganiad. Yn lle hynny, bydd yn cyhoeddi nodyn yn lle datganiad sy'n rhestru'r anghenion y dylai'r ysgol eu diwallu, ac nid yr ALI.
Swm Tybiedig	Swm a fwriedir ar gyfer pwrpas penodol.

Adolygwyd Gorffennaf 2017

24

Awdurdod Lleol Sir y Fflint

Fframwaith Polisi ADY

Rhiant	Person sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn neu berson ifanc.
PMLD	Anawsterau dysgu dwys a lluosog
Dosbarth ag adnoddau	Dosbarth mewn ysgol prif ffrwd sy'n cael cyllid ychwanegol i ddarparu ar gyfer y disgyblion a fydd yn mynd yno.
Gweithredu gan yr Ysgol	Rhan gyntaf o ymateb graddol yr ysgol i anghenion ychwanegol disgybl. Gweler y cod ymarfer 5:43 - 5:52 mewn perthynas ag ysgolion cynradd; a 6:50 - 6:56 mewn perthynas ag ysgolion uwchradd.
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Ail ran o ymateb graddol yr ysgol i anghenion ychwanegol disgybl. Gweler y cod ymarfer 5:54 - 5:61 mewn perthynas ag ysgolion cynradd; a 6:62 - 6:69 mewn perthynas ag ysgolion uwchradd.
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
SENCo	Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig – dylai bod gan bob lleoliad blynyddoedd cynnar ac ysgol un o'r rhain. Gweler cod ymarfer 4:15 - 4:16 mewn perthynas â lleoliadau blynyddoedd cynnar; 5:30 - 5:32 mewn perthynas ag ysgolion cynradd; a 6:32 - 6:35 mewn perthynas ag ysgolion uwchradd.
SLD	Anawsterau Dysgu Difrifol

Adolygwyd Gorffennaf 2017  
25